# tafod elái

Hydref 1997 Pris 25c Rhif 121

# BUDDSODDI I EHANGU

Yng nghyfarfod blynyddol Menter Taf Elái penderfynwyd ehangu i ddechrau gweithio yn ardaloedd Rhondda a Chynon yn ystod y flwyddyn nesaf. Hwn yw'r cam cyntaf tuag at lansio Menter Iaith newydd i wasanaethu Rhondda Cynon Taf a'r cyffiniau ymhen blwyddyn.

Fe wnaed y penderfyniad er nad oes unrhyw nawdd ychwanegol wedi ei dderbyn i ddechrau ar y gwaith ac y bydd rhaid i'r Fenter ysgwyddo baich ariannol y datblygiad. Dros y misoedd nesaf fe fydd y Fenter yn cyflwyno ceisiadau newydd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac i gyrff eraill er mwyn rhoi yr un safon o wasanaeth i'r ardaloedd newydd ac sydd i'w gael yn Nhaf Elái.

Roedd llwyddiant y Fenter yn amlwg o'r adroddiadau a dderbyniwyd yn y cyfarfod blynyddol. Bu cynlluniau gofal/chwarae yn ystod y gwyliau yn lwyddiant ysgubol gyda dros 200 o blant yn cymeryd rhan. Mae'r Clwb Carco yn Ysgol Evan James i blant ar ôl amser ysgol yn llwyddiannus. Mae 16 o grwpiau chwaraeon a hamdden i blant a phobl ifanc. Trefnwyd Cynhadledd o'r holl Fentrau yng Nghymru a chodwyd proffeil y Gymraeg mewn cant a mil o ffyrdd. Mae'r dysgwyr wedi derbyn cefnogaeth ariannol ychwanegol ac mae'r Fenter wedi datblygu perthynas clos gyda Chyngor Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae dyfodol llewyrchus i'r iaith yn yr ardal ond mae angen cefnogaeth pob siaradwr Cymraeg i hybu'r Fenter ac i sicrhau fod yr iaith yn cael ei defnyddio ar pob achlysur posib.



Nia Roberts, Dudley Newbery a Nerys Howell.

# CWIS NEWYDD I ROI BLAS AR FWYD

Mae dau gyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Rhydfelen yn gogyddion ar y cwis newydd Pryd o Dafod ar S4C. Mae Dudley Newbery yn gyfarwydd iawn i wylwyr y sianel ond dim ond yn ddiweddar mae Nerys Howell wedi dychwelyd i Gaerdydd yn dilyn gyrfa lwyddiannus. Bu'n astudio coginio cordon bleu, yn darparu prydau i gyfarwyddwyr yn Park Lane yn ogystal â stiwdios Pinewood a bu'n reolwraig arlwyo yn Lloegr a gwlad Groeg. Mae Pryd o Dafod ar S4C Nos Iau am 7.25pm.

# CREIGIAU AR Y BRIG

Pob clod i staff a disgyblion Ysgol Gynradd y Creigiau ar ennill eu lle yn y Cyfeirlyfr i Ysgolion Cynradd Da a gyhoeddwyd gan y Sunday Times yn ddiweddar. Golyga hyn fod ysgol Creigiau yn cael ei hystyried ymhlith 112 o ysgolion gorau Prydain Fawr, ac i ddyfynnu Greg Hadfield o'r Times - "Mae'r 112 o ysgolion cynradd yn yr atodiad hwn yn cynrychioli goreuon y sustem addysg wladol yn y Deyrnas Unedig. Maent yn gosod nod o ragoriaeth uchel i bob ysgol ymgyrraedd."

**Cyfarfod Blynyddol**
**Tafod Elaí**
**8.00 pm Nos Fawrth, Hydref 7ed**
**yng Nghlwb y Bont.**
**Dewch i roi trefn ar y Golygydd**

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
01222 890040

NEWYDDION LLEOL
Dilwen Davies 01443 223687
ERTHYGLAU
Dafydd Huws
LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
CHWARAEON
Martin Huws
01222 811413
HYSBYSEBION
David Knight 01222 891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 01222 842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
01222 890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf ar y 1af o Dachwedd
Erthyglau a straeon i gyrraedd erbyn 19 Hydref 1997

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 01222 890040

Cyhoeddir **Tafod Elái** gan y Bwrdd Golygyddol gyda chefnogaeth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru
Argraffwyr: Gwasg Morgannwg

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn

# CYSTADLEUAETH IOLO MORGANWG 1997

| | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | Cerdd yn cychwyn | "Petawn i'n anifail . ." |
| Blwyddyn 8 a 9 | Cerdd | "Ffair" |
| Blwyddyn 10 a 11 | Pum triban | "Cyfoeth" |
| Blwyddyn 12 a 13 | Cerdd | "Cydwybod" |

Beirniad: Nerys Mari George, Penybont ar Ogwr

**Cerddi i law Rhys Dafis, 48 Parc y Coed, Creigiau. CF4 8LY. erbyn 15 Tachwedd.**

# 58.47% YN DWEUD IE

Roedd yna dyndra mawr wrth wrando ar ganlyniadau Refferendwm 18ed o Fedi . Ond un pleidlais a ddaeth a llygedyn o obaith oedd pleidlais cadarnhaol pobol Rhondda Cynon Taf. Roedd 58.47% o blaid y Cynulliad gyda 50% o'r etholwyr yn pleidleisio. .

Os oedd y canlyniad terfynol yn plesio mae'n dangos nad oes amser i orffwys ond fod angen parhau i weithio i amddiffyn ein treftadaeth.

# LANSIO CLWB LLYFRAU NEWYDD

Bu nifer o gymeriadau adnabyddus o fyd llyfrau plant ar daith i lansio SBRI-DI-RI - y clwb llyfrau Cymraeg newydd i blant. Mewn ymateb i'r galw gan rieni ac athrawon mae Cyngor Llyfrau Cymru yn lansio clwb SBRI-DI-RI yn arbennig ar gyfer plant 3 - 7 oed. Bydd y clwb yn cyd-redeg â Sbondonics sydd wedi ei sefydlu ar gyfer plant 7 - 11 oed.

*Gwahoddiad i Ddiwrnod Agored Tenantiaid*

# Y Tŷ Model

Llantrisant

**Dydd Iau 16eg Hydref**
**Rhwng 3pm - 9pm**
**Bydd cyfle i weld:-**

Bronwen Thomas (Pensaer Tirlun)
Christine Gittins (Crochenydd)
Sandra Ajax (Cynllunio Mewnol)
David Williams (Arlunydd)
Sylvia Hughes-Williams (Arlunydd)
Ben Howard (Gwehydd)
Meryn Williams (Pianydd/Athrawes)
Mandy Nash (Gemydd)
Menter Taf Elái (Hyrwyddo'r Gymraeg)
Arddangosfa'r Bathdy Brenhinol
Oriel
Am fwy o wybodaeth
**Canolfan Crefft a Dylunio**
**Y Ty Model**
**Llantrisant**
**Ffôn: 01443 237758**

# SIOP BARA Y PENTREF

***Heol St Illtyd***
***Pentre'r Eglwys***

**Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.**

**Mrs Janet Evans**
**01443 202013**

***Trefnir Arlwyo***

## Cyfeiriad eich Cyngor Sir

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda-Cynon-Taf**
Y Pafiliwn, Parc Cambrian.
Clydach. CF40 2XX.
Ffôn: 01443 424000.

**Cyngor Sir Dinas Caerdydd**
Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd. CF1 5UW
Ffôn: 01222 872000.

*Ysgrifennwch / Ffoniwch yn Gymraeg*

# YSGOL GYFUN LLANHARI

## I'R GOGLEDD PELL

Nant Gwrtheyrn oedd lleoliad ein cwrs Cymraeg blynyddol ddechrau'r flwyddyn. Bu disgyblion brwdfrydig ysgolion Llanhari, Y Cymer, Rhydfelen a Chwm Rhymni yn treulio wythnos yn astudio'n galed yn y Gogledd pell. Cawsom gyfle gwych i ymweld â mannau hanesyddol a oedd yn bwrpasol iawn i'n cwrs Lefel A gan gynnwys ardal enedigol Caradog Pritchard, cartrefi Hedd Wyn a Kate Roberts a beddau T.H.Parry Williams, W.J.Gruffydd a R.Williams Parry. Cawsom ein diddanu yn yr hwyr gan fawrion y genedl - John Ogwen a Maureen Rhys yn trafod y ddrama "Siwan" ac Eleri Llywelyn Morris yn sôn am ysgrifennu straeon byrion. Ond mae'n siwr mai un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd darlith wefreiddiol Gerallt Lloyd Owen a hynny ar noson hanesyddol pan bleidleisiodd Cymru dros Gynulliad. Bu dathlu trwy gydol y nos a hyn yn goron ar wythnos ffantastig! Diolch i'r athrawon am eu brwdfrydedd a'u hamynedd.

## Y CYNULLIAD

Ar y teledu, ar y radio ac yn y wasg roedd sôn am y refferendwm a doedd ysgol Llanhari ddim yn eithriad. Dyma oedd testun siarad pawb a bu'r teledu yma'n cofnodi'r dadlau cynhyrfus rhwng Owen Thomas oedd o blaid cael cynulliad ac Angharad Pritchard Copley a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn ein ffug bleidlais. Yr un oedd y canlyniad ag a gafwyd yn genedlaethol ar Fedi'r 18ed ond doedd y canlyniad ddim mor agos o bell ffordd!

## TAITH GERDDED

Unwaith eto eleni aeth cynrychiolaeth gref o ddisgyblion Ysgol Llanhari ac yn wir o holl ysgolion Cymraeg y De-ddwyrain i Barc Bute yng Nghaerdydd ar gyfer taith gerdded flynyddol Sefydliad Prydeinig y Galon. Deallwn i bawb a fentrodd lwyddo i gwblhau'r daith ac edrychwn ymlaen at gael gweld yr arian yn llifo i mewn i helpu'r achos teilwng hwn.



Y Criw yn y Gogledd

## LAWR AR LAN Y MOR

I Langrannog yr aeth disgyblion blwyddyn 7 ar ddechrau'r tymor i wneud ffrindiau newydd a chymdeithasu'n Gymraeg. Yn ôl y sôn bu'r cwrs yn un o fwynhad pur gyda'r gweithgareddau amrywiol - y sgio, y merlota a'r nofio yn plesio pawb. Bu'r Eisteddfod draddodiadol yr un mor llwyddiannus a gwallgo ag arfer! Anna Glyn a enillodd y gadair - llongyfarchiadau iddi hi. Mae'r disgyblion bellach wedi ymgartrefu yn ein plith a'r athrawon yn dal heb ddadflino!

## YMWELD ARALL

Bu criw Daearyddiaeth Bl 11 yn ymweld â Glanllyn yn ddiweddar fel rhan o gynllun Mr Samuel a Miss Puw Jones i sicrhau gwaith cwrs safonol. Cafwyd ymweliad a Chwm Idwal a chyfle i fesur afonydd a chyfrif trigolion tref Dolgellau. Cafwyd cyfle hefyd i gymdeithasu a mwynhau'r nofio a'r bowlio deg ond roedd y pwyslais mae'n debyg ar y gwaith caled!

## GWLEDDA

Gwahoddodd y gymdeithas Roteri leol dimau siarad cyhoeddus Cymraeg a Saesneg yr ysgol ynghyd â'n hyfforddwr Mr David Williams, Pennaeth y Chweched i giniawa yn eu cwmni yn Llanharan yn ddiweddar. Y gŵr gwadd oedd Arwel Elis Owen a chafwyd ganddo araith ddiddorol wrth iddo sôn am ei waith yn y cyfryngau a hyn yn glo cofiadwy i'r noson.

*Sara Esyllt*

# YSGOL GYMRAEG CASTELLAU

## CROESO

Croeso nôl i bawb i'r ysgol yn dilyn gwyliau'r Haf yn enwedig 28 o blant Meithrin.

Estynnwn groeso hefyd i Mrs Sian Hale a Mrs Gill Richards a fydd yn dysgu dros dro yn yr ysgol y tymor yma ac i Mrs Sarah Davies, cynorthwywraig ddosbarth. Croeso i bawb.

# CWMNI GWEN

Ar nos Fercher 10ed Medi cynhaliwyd Noson Lawen gan ddoniau'r Cwmni yn Neuadd Dowlais. Roedd yn gyfle i glywed rhai o uchafbwyntiau dwy sioe gerdd, Chicago a Draw Dros y Don, ac i fwynhau llwyddiant y cwmni yn Eisteddfod yr Urdd, Islwyn.

Cyflwynwyd y noson yn hwyliog a difyr gan Caryl Parry Jones - roedd wedi synnu at safon uchel y cynhyrchiadau.

I rai o'r cwmni roedd y noson yn ddiwedd cyfnod wrth iddynt adael yr ardal i fynd i'r coleg ond mae'n siwr fydd cyfle iddynt ymuno ym mherfformiadau'r dyfodol. Roedd y cwmni yn ddyledus iawn i Nicola Mair, Catrin Richards a Patric Stevens am eu cyfarwyddo.

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

**YSGOL Y CREIGIAU**
**CROESO**
Croeso i ddwy athrawes newydd y tymor hwn, Miss Hefina Davies a Mrs Menna Jones a gobeithio y byddant yn hapus yno.

**CÔR YR YSGOL**
Gwahoddwyd côr yr ysgol i berfformio yn Arena Genedlaethol Caerdydd ar Hydref 17eg, i ddathlu agor cynhadledd Cymdeithas y Gyfraith.

**CYCHWYN GYRFA**
Ein dymuniadau gorau i Dr Owain Thomas, Parc Castell y Mynach, sy bellach wedi cychwyn ar ei waith fel meddyg yn Ysbyty Llandochau.

Pob hwyl hefyd i Llinos Roberts sy newydd ddechrau ar ei gwaith fel athrawes Ffrangeg a Chymraeg yn Ysgol Uwchradd St. Joseph's, Wrecsam.

**AM BARTI, BARTI, BARTI, BARTI . . .**
Mae'n siwr bod ambell i ddarllenydd wedi trefnu ambell i barti pen-blwydd yn ei dro - ond oedwch am funud i ystyried y parti fuodd yng nghartre'r MacDonald's ym Mhen y Bryn yn ddiweddar! Y tripledi - Fiona, Alistair a Trystan yn cyrraedd eu un ar hugain oed, Virginia yn dathlu ei deunaw - ac Anna hithau yn bymtheg. Llongyfarchiadau iddynt oll ac un!

**RYGBI'R IFANC**
Da gweld bod cymaint o fechgyn ifainc o'r ochr Gymraeg yma'n y Creigiau yn mwynhau dysgu sgiliau rygbi ar gaeau rygbi Pentyrch bob nos Wener - a hynny dan ofal Cymro o hyfforddwr, Gareth Davies. Os carai unrhywun fwy o wybodaeth, cysyllter a Gareth ar 891559.

**CANTORION Y CREIGIAU**
Mae gwahoddiad cynnes i aelodau newydd chwyddo rhengoedd y côr. Os oes diddordeb (a llais) gennych cysyllter â Mike MacDonald 892830.

**CYLCH TI A FI A'R CYLCH MEITHRIN**
Mae'r cylchoedd wedi ail-gychwyn, a chriw bach hapus yn cwrdd dan arweiniad Miss Mair Sparks, a'i chyd-athawes, Mrs Lisa Hall. Ar foreau Llun, Mawrth, Mercher a Iau bydd y Cylch Meithrin yn cyfarfod a hynny rhwng 9.30 - 2.00 yn y Pafiliwn. Croeso i Miss Sian Thomas, arweinyddes newydd y Cylch Ti a Fi a phob hwyl iddi yn ei swydd newydd. Ar fore Gwener rhwng 10 a 11.45 y bore bydd Cylch Ti a Fi yn cwrdd, eto yn y Pafiliwn. Os carech fwy o wybodaeth am y Cylchoedd mae croeso i chi gysylltu â Mrs Margaret Kelly, y Groesfaen, sef Cadeiryddes newydd y Cylchoedd ar 01222 892600.

Rhaghysbys - bydd diwrnod o hwyl i'r plant Meithrin yn Neuadd yr Eglwys Creigiau ar Hydref 24ain, a'r mis canlynol bydd trip siopa i Swindon - Tachwedd 15fed. Eto gellwch gysylltu a Mrs Margaret Kelly.

**MERCHED Y WAWR Y CREIGIAU / PENTYRCH**
Chwi ferched sydd heb ymuno eto, cofiwch fod yna groeso cynnes i chi ymuno yn yr hwyl. Bydd y Merched yn cwrdd yn Neuadd y Pentref, Pentyrch gan amlaf ar ail nos Fercher y mis. Os am fwy o wybodaeth rhowch alwad i'ch cysylltwraig yma yn y Creigiau, Jenny MacDonald ar 892830.

**CLWB Y DWRLYN**
Cymdeithas sy'n cynnig amrywiaeth o hwyl a sbri a diwylliant i Gymry Cymraeg y Creigiau a Phentyrch yw Clwb y Dwrlyn. Os carech ymuno yn yr hwyl - cysylltwch â Ken neu Pat Sedgebeer, Parc y Bryn, 890406 fydd ond yn rhy falch i gael sgwrs da chi, a rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r Dwrlyn.

**CROESO**
Croeso i Rebecca Louise - chwaer fach newydd sbon i Mathew Sion, a merch fach annwyl i Sharon a Nigel Griffiths, 49 Parc y Coed.

## YR URDD

Mae'r Adran yn fyw ac yn ffynnu unwaith eto yn y Creigiau. Diolch i frwdfrydedd a chefnogaeth criw brwd o rieni, pwyllgor gweithgar, ac arweinyddion egnïol, mae rhaglen lawn yn ei lle ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd yr Adran yn cwrdd ar nos Fercher rhwng 6 - 7 ar gyfer plant 7 - 11 oed, ac yna'n dilyn mae croeso i blant blwyddyn 7, 8 a 9 ymuno yn hwyl yr Uwch Adran.

Croeso 'nol i Emma, sy'n dal i gynnig cymorth ar nos Fercher er bod ganddi swydd lawn amser brysur - a chroeso cynnes iawn i Dylan, brodor o Aberporth sy bellach ar staff yr Urdd ym Morgannwg, sydd yn ymgymryd â'r arweinyddiaeth.

Noson gynta'r tymor daeth y BBC i ffilmio gweithgareddau'r Adran ar gyfer rhaglen deledu "Ffeil" a ddarlledir ar S4C bnawn Sul, Hydref 19eg. Nodyn yn y dyddiadur! Diolch hefyd i Miss Sylvia Davies sy'n goruchwylio'r cyfan o'r "gadair" eleni.

**YR "A" STIWDANT**
Digon prin bod hawl gennym gynnwys newyddion Bedwas yng ngholofn y Creigiau - ond yn absenoldeb papur bro yn yr ardal honno - llongyfarchiadau i Karen Wozencroft a enillodd radd 'A' yn ei harholiad "Defnyddio'r Gymraeg Uwch" yr haf yma. Mae Karen yn aelod brwd o holl gymdeithasau a chylchoedd Cymraeg y pentre yma - ac yn gwerthfawrogi'r cyfle gaiff i ddefnyddio'i Chymraeg gyda'i holl ffrindiau newydd.

**DIOLCH**
Diolch o galon i Sheila Dafis am gywain newyddion y pentref hwn yn ddiflino ac yn ddifyr am y blynyddoedd diwethaf - cofiwch os na chyrhaeddodd eich newyddion chi y golofn hon y tro hwn, a fyddech gystal â chysylltu â mi, er mwyn i ni gyhoeddi'r cyfan i ddarllenwyr Tafod Elái (Nia 890979).

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies



### PRIODAS YNG NGHAPEL Y TON

Ar fore hyfryd Sadwrn y 16eg o fis Awst gweinyddwyd priodas Miss Sioned Hunt merch Mr John a Mrs Myfanwy Hunt, Heol y Gilfach, Tonyrefail a Mr John Ellis mab Mrs Effie Ellis o'r Wyddgrug. Bu farw ei dad rai blynyddoedd yn ôl. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Byron Davies o Faesteg ac wrth yr organ oedd Mr Kenneth Pritchard cefnder i Mrs Hunt ac yn gweinyddu i'r briodasferch roedd ei dwy nyth Katie ac Anna Wynne. Darllenwyd rhan o'r ysgrythur gan Dr Sian Wynne chwaer y briodasferch o'r 3ydd bennod o lyfr y Pregethwyr. Canwyd tri emyn yn y gwasanaeth, un yn emyn Cymraeg. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd datganiad o un o weithiau Handel gan Miss Jennifer Howe. Ar ôl y gwasanaeth yn y Capel aethont i lawr i'r wledd briodas yng nghartref James a Dr Sian Wynne yn Aber Ogwr, sydd yn edrych allan ar y sianel tuag at Wlad yr Haf.

Bydd y cartref priodasol yn Bryn y Baal ger y Wyddgrug. Bydd Sioned yn cario ymlaen ar ei galwedigaeth fel cantores a John ar ei alwedigaeth yntau fel adeiladydd. Dymunir iddynt bob rhwyddineb yn y dyfodol, mae mam Sioned, Myfanwy, yn aelod yng Nghapel y Ton ag yn gwasanaethu ar y piano yn yr oedfaon, bu Sian a Sioned yn ffyddlon iawn i ysgol Sul Capel y Ton ag yn arwain y gweithgareddau yno tan iddynt fynd i'w colegau a'u galwedigaethau. Yn y llun gwelir y briodasferch a'r priodasfab, tad a mam Sioned a dwy famgu, Mrs B Roberts a Mrs G Hunt.

### MARWOLAETH MR MEIRION ROBERTS

Ychydig wythnosau cyn priodas Sioned, cafwyd colled drwy farwolaeth Mr Meirion Roberts ewythr i Mrs Myfanwy Hunt yr ola o chwech o fechgyn a'r unig ferch sef Mrs Bronwen Pritchard a hithau yn anffodus yn Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd.

Gadewir dau fachgen gan Meirion, Alun a Gwyn, a'u gwragedd a'r plant. Cydymdeimlad dwys iawn i'r teulu sydd yn byw yn Gilfach Goch ac yn y Ton a dymunir adferiad buan i Mrs Bronwen Pritchard, bu hithau ar wyliau yn yr Alban yn ddiweddar yn aros gyda'i mab, Keneth.

### PRIODAS RUDDEM

Ar y 17eg o Awst dathlodd Mr a Mrs Idwal Thomas eu priodas ruddem. Bu yn ddrws agored yn 81 Collena Rd, prynhawn Sadwrn a daeth llu o garedigion i'w gweld ac i ddymuno'n dda iddynt a bwffe gwych wedi ei baratoi ar eu cyfer. Mae Mrs Jean Thomas yn aelod ffyddlon yng Nghapel y Ton ag yn swyddog ariannol.

Mae ganddynt dri o fechgyn, Rhys, Aled a Gareth. Mae Rhys yn briod â Carol a chanddynt ferch, Megan Eleri a hi yw cannwyll llygad y famgu a'r tadcu. Pob bendith iddynt.

### CAPEL Y TON

Dechreuodd yr oedfaon ar ôl cau dros fis Awst. Ar y 7fed, y Sul cyntaf o Fedi, gwasanaethwyd gan yr Athro Dr J Gwynfor Jones o Gaerdydd.

Rym yn gweld eisiau llawer iawn o'n haelodau sydd yn methu dod i'r capel gan afiechyd. Mae Mrs Copeland yng Nghanolfan Gelli Seren, Mrs Church yn gaeth i'r ty a Mrs Gwenni John a Mrs M. Williams. Yn ddiweddar mae Mrs Buck wedi torri ei choes a dydi Mrs Iris Richards ddim yn well chwaith. Hefyd Mrs Iris Cope Llywelyn y ddwy ola yn gyn-aelodau Ainon.

# YSGOL GARTH OLWG

### DECHRAU TYMOR

Ar ddechrau tymor yr Hydref yma, pleser yw estyn croeso i Miss Enfys Griffiths atom fel aelod o'r staff, yn dilyn cyfnod fel athrawes yn Ysgol Gymraeg Ifor Bach, Senghennydd. Fe fydd Miss Griffiths yn athrawes dosbarth o blant Blwyddyn 2/3.

Manteisir ar y cyfle hefyd, i ddiolch o galon i Mrs Diane Evans, o Donyrefail, am y gwaith ardderchog a gyflawnodd tra yn athrawes yng Ngarth Olwg rhwng y Pasg a'r Haf.

Pleser hefyd yw estyn croeso i'r criw o blant o oedran Meithrin a Derbyn sydd, yn ystod mis Medi yma, wedi dechrau ar eu gyrfa yng Ngarth Olwg, yn mentro i ehangder addysg ddwyieithog, yn dilyn eu cyfnod yn y grwpiau meithrin gwirfoddol o fewn dalgylch yr ysgol.

Pleser hefyd fu croesawu Mr Andrew Tamplin i'r ysgol yn ddiweddar, yntau'n dechrau ar ei swydd fel swyddog ieuenctid ar ran capel y Tabernacl, Efail Isaf. Mae cyfraniad Mr Tamplin eisoes wedi bod yn werthfawr i ni, gan y bydd yn ymuno â ni yn ein gwasanaeth Cynhaeaf ar Hydref 13, yn ogystal â chynorthwyo, yn ystod y tymor, i gychwyn clwb awr ginio i blant Blwyddyn 6.

Yn ogystal â'r ymweliadau Cymunedol arferol, bydd cyfle i bob dosbarth gydweithio â Mrs Collieshore o'r elusen Lepra - fel rhan o ddathliadau'r Cynhaeaf.

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Ann Rees

**DYMUNIADAU DA**

Pob dymuniad da i David Williams, Heol Tir Coch ar ddechrau ei swydd yn Ysgol Gynradd Treorci.

Llongyfarchiadau i Irene Coles, Penywaun ar enedigaeth wyres fach ar y 12fed o Fedi - Georgia Louise, merch fach i Brandon a Marcia.

Dymuniadau gorau i Huw John, Heol Iscoed ar ei ymddeoliad. Bu'n gyfreithiwr yng Nghaerdydd am nifer o flynyddoedd. Amser nawr i hamddena - chwarae golff, seiclo a chadw'n heini

Bu'n gyfnod hapus i lawer o ieuenctid y pentre ar ganlyniadau eu harholiadau Lefel A a TGAU. Llongyfarchiadau i Bethan Eyres, Rhian Mahoney, Sheryl Williams, Christopher Jeffs a Christopher Percy (TGAU) a Joanna Bishop ac Amanda Percy (Lefel A).

**CAPEL TABERNACL**

Nos Sul, Medi'r 7ed gwelwyd cynulleidfa gref yn y Tabernacl. Roedd yn achlysur deublyg. Yn gyntaf, i gydnabod ein diolch i Gill Rees am ei llafur gyda Teulu Twm am ddeng mlynedd ac i'r pedair fu'n ei chynorthwyo yn ystod yr amser hwnnw sef, Ann Dwynwen Davies, Carole Willis, Jen Macdonald a Carol Williams. Gwerthfawrogir eu llafur yn fawr o gofio am yr oriau o waith ac egni maent wedi rhoi i'r gwaith pwysig hwn. Ni all geiriau ddweud maint eu cyfraniad ond o weld y gynulleidfa ar y noson - yn cynnwys "hen Dwmiaid" a rhai presennol - roedd y peth yn siarad drosto'i hun.

Yn ail, roedd yn noson bwysig i'r eglwys wrth groesawu Andrew Tamplin at ei waith gyda'r ifanc. Gyda'r gefnogaeth ar y noson ac wrth edrych nôl dros y 14eg mlynedd diwetha mae'n siwr y bydd Andrew yn cael lle i weithio gyda'r ifanc. Mae e wedi dechrau ar ei waith ac wedi ymweld â'r ysgolion lleol yn barod. Mae'r eglwys yn edrych ymlaen at gyfnod newydd cyffrous.

Ar ôl yr oedfa cawsom barti yn neuadd y pentre ac yn wir, teimlwyd bod bwydo'r pum mil yn digwydd eto! Roedd yn wefr cael bod yno ar y noson bwysig hon.



**PRIODAS**

Ar Awst y 15fed priodwyd Heulyn Rees a Catrin Wyn Ifan yng Nghapel Soar, Llanbedr Pont Steffan. Y gwas priodas oedd Gwion Rees a'r morynion oedd Eleri Ifan, Ffion Rees a Gwenno Rees. Yr ystlyswyr oedd Brython Davies a Ioan Rees. Y briodferch mewn ffrog sidan wen wedi'i haddurno a brodwaith a pherlau ac yn cario tisw o flodau gwyn a glas. Gwisgodd y morynion ffrogiau sidan glas golau. Yn ystod y gwasanaeth canwyd y delyn gan Ceri Anwen, ffrind i'r teulu. Bu'r wledd yng Ngwesty'r Falcondale, Llanbedr Pont Steffan ac aeth y pâr i Dŷ Ddewi ar eu mis mêl. Mae'r ddau wedi gwneud eu cartre yng Nghilfynydd.

# PONTYPRIDD

Gohebwyr Lleol:
Delyth Jones a Jayne Rees

**SYMUD CARTREF**

Pob lwc a dymuniadau gorau i Gwenllian Jenkins yn ei chartref newydd yn "Brynffynnon", Llanfabon.

**YR HEN GOESAU - ar wib!**

Aeth 9 ohonom i Abertawe i redeg ras 10k - o Faes San Helen i Ystumllwynarth - a nôl!. Llongyfarchiadau i Steve Smith, Chris Mann, Lisa Thomas, Delyth Roberts, Richard Hughes, Gill Frowen, Emma Smith, Randal Gardener a Jayne Rees am ei chwblhau hi mewn amseroedd derbyniol dros ben.

**YSGOL EVAN JAMES**

Daeth y Parch Hywel Lewis i ddosbarth 13 i siarad am rôl y capel yn y gymdeithas.

Aeth plant Bl 6 i gael gwersi arlunio gyda Glyn Bishop yn y Miwni. Mae nifer o ddosbarthiadau yr Adran Iau wedi ymweld â Pharc Treftadaeth y Rhondda.

Aeth Dosb. 9 i glywed sesiwn o farddoniaeth yn Llyfrgell Pontypridd.

**LORIENT**

Bu Meilyr Dixey yn diddanu miloedd yng Ngwyl Geltaidd Lorient yn ystod gwyliau'r haf - ei gamp - clocsio. Da iawn, Meilyr.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Eleri Jones

**MERCHED Y WAWR**
Daeth nifer o aelodau'r mudiad ynghyd i Frynderi, Penywaun i drefnu gweithgareddau'r flwyddyn. Etholwyd Gill Rees yn llywydd, a Minwel Tibbott yn Is-lywydd, Vi Jones yn Ysgrifenyddes a Nia Williams yn drysorydd. Edrychwn ymlaen at dymor o weithgareddau diddorol.

**CLWB Y DWRLYN**
Dechreuodd y tymor gyda noson o flasu diodydd amrywiol yn Nhafarn y Kings. Roedd y gweithgareddau yn nwylo medrus Ifan Roberts a chafwyd cryn hwyl ar y cymdeithasu.

**LLONGYFARCHIADAU**
Cyflawnodd Anna Glyn, Penywaun dipyn o gamp yn cipio Cadair cwrs blwyddyn 7 Ysgol Llanhari, yn Llangrannog yn ddiweddar.

**YMDDEOLIAD CYNNAR**
Pob dymuniad da ar ei ymddeoliad i Jim Morris, Troedygarth. Deallwn fod ganddo bellach amser i gynnig cyngor ariannol neu arddwriaethol i ni i gyd.

**NEWID BYD**
Yn dilyn eu llwyddiant arholiadol yn yr haf mae nifer o ieuenctid y pentref yn parhau â'u hastudiaethau mewn gwahanol feysydd. Mae Angharad Rees yn Ysgol y Gyfraith yn Guildford, Garmon Davies yn dilyn cwrs ymarfer dysgu yn Aberystwyth, a Betsan Thomas a Lisa Mair Williams wedi dechrau ar gwrs tebyg yn Athrofa'r Brifysgol yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau i Sian Jones, Penffordd a raddiodd mewn Addysg o'r coleg hwn yn ddiweddar.

Gadawodd eraill i ddechrau ar eu cyfnod o addysg Prifysgol. Dymunwn yn dda i Awen Penri yn Abertawe, Angharad Devonald yn Nulyn ac Edryd Jones yn Nhrefforest. Dychwelodd Catrin Rees, Alun Evans a Hywel Roberts i'r chweched dosbarth yn Llanhari a Carrie Sowden-Taylor i barhau â'i haddysg yn Ysgol Howells.



**PRIODAS DDA**
Yng nghapel y Tabernacl, Efail Isaf ar Fedi'r 5ed priodwyd Catrin Devonald "O'r Diwedd" a Mr Chris Rees, o Lantrisant. Lowri ac Angharad , chwiorydd y briodferch, oedd y morynion a Jonathan, brawd y priodfab, yn was priodas. Maent bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerfaddon.

**SIOE PENTYRCH**
Er bod llai o gynnyrch nag arfer yn Sioe flynyddol Pentyrch eleni, cefnogodd nifer o ddarllenwyr Tafod Elái yr ŵyl. Daeth enwau Don Llywelyn, Tim Morgan, Glenys Lewis ac Ann George yn amlwg ymhlith enillwyr yr oedolion. Enillodd Cerian a Deri Hughes, Maes y Sarn, Lucy a Suzanne Young, Ffordd Ty'n y Coed, Owen a Robert Morgan, "Alloway" a Megan a Dewi Jones, Pantbach lu o wobrau am wahanol weithgareddau yn amrywio o ffotograffiaeth i goginio ac o drefnu blodau i beintio. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

**DRAMODYDD ADDAWOL**
Ysgrifennwyd un o'r dramâu a berfformiwyd fel rhan o gyfres yn dwyn y teitl "Dangerous Women of the Mabinogi" yn y Sherman yn ddiweddar, gan Angharad Devonald. "Blodeuwedd - Sugar Flower" oedd teitl y ddrama gyfoes am freninesau harddwch a'r freuddwyd o greu'r fenyw berffaith. Mawr fu'r canmol am ei gwaith.

# CÔR GODRE'R GARTH

Os ydych am gyfle i fwynhau canu mewn awyrgylch croesawgar a hwyliog Cymraeg dewch draw i ymarferion Côr Godre'r Garth am 7.30 bob nos Sul yn Neuadd Efail Isaf. Does dim prawf llais na gwrandawiad.

Mae'r côr yn paratoi i ganu'r Eleias, Mendelssohn, ym Maesteg cyn y Nadolig - cyfle i gael gwefr wrth baratoi a pherfformio un o'r clasuron corawl.

# YSGOL HEOL Y CELYN

**FFARWEL A CHROESO**
Pob dymuniad da i Miss Nia Williams athrawes Blwyddyn 1 a symudodd i ysgol Sant Baruc y Barri ddiwedd tymor yr haf a chroeso mawr i Miss Anwen Tomos sydd yn cymryd ei lle.

**RYGBI**
Mae chwech o fechgyn yr ysgol wedi eu dewis i dîm dan unarddeg Pontypridd i'r tymor yma sef Ross Lucas, Mark Tyler, Sam Evans, David Gratton, Jamie Griffiths a Lee Scarfe.

**PÊL DROED**
Cyflwynir cit pêl droed newydd i'r ysgol ac mae'r diolch i Mr Perry perchennog siop leol a enwebodd yr ysgol oherwydd iddo ennill cystadleuaeth a noddwyd gan greision Walker.


Os am
***DIWNIWR PIANO***
*Cysyllter â*
**Hefin Tomos**
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
***Ffôn: 01222 484816***

# FFYNNON TAF, NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

### GWAHARDD DYNION BUSNES

Yn Llys Sirol Caerdydd fe gafodd dau ddyn busnes eu gwahardd rhag gweithredu fel cyfarwyddwyr am gyfnod o bymtheng mlynedd. Fe gafodd Trevor Taylor, Tŷ-Isaf, Gwaelod y Garth, ei wahardd am bum mlynedd ac Alan Phillips, Llanbedr Pont Steffan, ei wahardd am ddeng mlynedd ar ôl i In-Transit Express Cyf, Trefforest a Trevor Taylor Transport Cyf, Caerffili, fynd i'r wal.

Pan ddaeth y ddau gwmni i ben yn Ionawr 1995 roedd ganddyn nhw ddyledion o £518,292. Ni thalodd Taylor a Phillips ddyled bersonol gwerth £60,761 i In-transit Cyf a ni chadwon nhw gofnodion yn unol a gofynion y Ddeddf Gwmniau.

Fe dynnodd y ddau arian mas ar gyfer eu cyfrif personol eu hunain pan oedd Trevor Taylor Transport Cyf. mewn dyled ac ar fin dod i ben.

### CYHUDDO DYN Y GWARCHAE

Yn Llys Ynadon y Rhondda fe gafodd dyn o Ffynnon Taf ei gyhuddo o fygwth lladd rhywun a bod â dryll yn ei feddiant.

Fe gafodd Alan Phillips, 35 oed, o Dŷ Rhiw, ei restio yn Llanhilleth ger Abertyleri ar Fedi 2. Fe amgylchynodd heddlu arfog res o dai am chwarter wedi wyth yn y bore. Ni restiwyd Phillips tan hanner awr wedi dau y prynhawn. Mae Phillips ar fechnïaeth.

### CYNULLIAD UWCH

Fe ddangosodd pobol leol fwy o ddiddordeb yn y Refferendwm na phleidleiswyr Rhondda Cynon Taf. "Roedd nifer pleidleiswyr y ddwy ochr yn uwch yn yr ardal," meddai'r swyddog etholiadol, Doug Williams.

"Yn Rhondda Cynon Taf fe bleidleisiodd 49.9%. Fe bleidleisiodd 57% yng Nghlwb Pel-droed Ffynnon Taf, 56% yn Nhawelfryn, 56% yn Neuadd y Pentre, Ffynnon Taf, 53% yn Nhŷ Rhiw a 47% yn Neuadd Rhydychen, Nantgarw.

### LLADRON YN RHYDD

Dyw'r heddlu ddim wedi dala'r lladron a ddygodd gyfrifiaduron, teledu, fideo a pheiriannau argraffu o Ysgol Gynradd Ffynnon Taf ar Awst 16.

"Mae lladron yn targedu cyfarpar soffistigedig," meddai'r Ditectif Arolygydd Les Richards ar ran Heddlu De Cymru. "Rhaid i bobol ystyried diogelwch cyn prynu'r cyfarpar. Sdim pwnt prynu'r cyfarpar a'i gadw mewn ystafell."

A'i gyngor i brifathrawon yw:

* Cadwch eich cyfarpar mewn cabinetau sy'n cloi neu seff.
* Defnyddiwch godiau post
* Defnyddiwch hylif arbennig sy'n cynnwys DNA
* Gwnewch yn siwr fod bariau ar ffenestri
* Gwnewch yn siwr fod y larwm yn gweithio'n iawn.
* Pan yw'r ysgol ar gau ni ddylai neb, hyd yn oed plant lleol, fod yn yr iard.

### CROESO I GRIFFRI

Llongfarchiadau i Simon a Gwen, Heol Caerdydd, Ffynnon Taf, ar enedigaeth eu mab, Griffri Emrys Llwyd, yn Ysbyty'r Mynydd Bychan, Caerdydd, ar Awst 16. Roedd brawd newydd Annes yn pwyso wyth pwys saith owns. Rheolwr cynllun Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw Simon.

### HAUL AR Y FODRWY

Llongyfarchiadau i Fiona Anne Murphy, 31 oed, a briododd Nicholas Jones, 28 oed, yng Nghapel Penrhiw, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, ar Fedi 6. Y Gweinidog oedd y Parchedig Eric Jones, Aberdar.

Merch Paul a Barbara Murphy, Heol Caerdydd, Ffynnon Taf, yw Fiona. Fe aeth i Ysgol Gyfun Rhydfelen a graddiodd ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd Paul Murphy yn arfer cadw'r swyddfa bost yn Ffynnon Taf.

Mae Fiona a Nicholas yn gweithio i gwmni o'r enw International Medical Rescue. Ar ôl mis mêl yn Toronto, Canada, maen nhw'n byw yn Kingston-upon-Thames.

### CYNLLUN YN RHANNU CYMUNED

Mae pwyllgor cynllunio Caerdydd newydd gefnogi tri chais cwmni Redlands i ddatblygu eu chwarel - er gwaetha' gwrthwynebiad brodorion Pentrepoeth a Radur. Ond mae pentrefwyr Gwaelod y Garth, Pentyrch a Chreigiau yn cefnogi'r cynlluniau i agor mynedfa newydd i'r chwarel ger tafarn y Tŷ Nant.

Os na fydd Ron Davies, yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ymyrryd yn y broses gynllunio, fe fydd y cyngor llawn yn penderfynu'n derfynol ar Hydref 24.

"Rwy'n croesawu penderfyniad y pwyllgor cynllunio" meddai Tom Procter o Waelod y Garth. "Mae'n gam i'r cyfeiriad iawn."

Ond mae brodorion Pentrepoeth a Radur yn gofidio am yr hewl newydd ac effaith loriau'r chwarel ar eu bywyd bob-dydd.

Un o'r rhai wrthwynebodd geisiadau cwmni Redlands oedd y Cynghorydd Marion Drake o Radur. "Dydyn ni ddim yn datrys y broblem," meddai ar ôl cyfarfod y pwyllgor cynllunio. "Rydym yn ei symud o un pentre i'r llall.

"mae dadleuon yr amgylchfyd yn bwysig. Mae angen diogelu coed ac ati. Ond mae ansawdd bywydau pobol yn bwysig hefyd."

### MARW NANCY WRIGHT

Yn dawel ar Awst 29 yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg fe fu farw Nancy Wright, Moy Road, Ffynnon Taf, gwraig Leo (Neil), mam Sue, mam-yng-nghyfraith Emrys a Mamgu Martyn.

Roedd yr angladd ar Fedi 4 yn Amlosgfa Glyntaf. Cydymdeimlwn â'r teulu.

### DATHLU HANNER CANRIF

Ar Hydref 1 yn y Capel Newydd, Y Betws, Rhydaman, roedd na barti arbennig i ddathlu fod y Parchedig T.J. Davies wedi bod yn weinidog ers hanner canrif.

"Mae 'na newidiadau mawr wedi bod," meddai gweinidog Bethlehem, Gwaelod y Garth. "Pan es i i'r Betws yn 1947 roedd 'na aelodaeth o ryw dri chant. Erbyn hyn, mae'r aelodaeth i lawr o dan gant. Mae 'na gwymp

## FFYNNON TAF NANTGARW GWAELOD Y GARTH (Parhad)

wedi bod yn gyffredinol."

A'i gyngor i bregethwr ifanc heddi'? "Os yw e'n teimlo fod 'na alwad iddo fynd i'r weinidogaeth, rhaid iddo holi ei hun yn ofalus oherwydd mae 'na lawer o siomedigaethau."

Llongyfarchiadau i T.J.

**DIGWYDDIADAU**

Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth, 10.30 am: Hydref 5, Gweinidog (Cymun); Hydref 12, y Parchedig Dyrinos Thomas; Hydref 19, Y Parchedig Gwilym Dafydd; Hydref 26, y Gweinidog.

CYLCH TI A FI, Ffynnon Taf: bob prynhawn Mawrth yn ystod y tymor, Neuadd y Pentre', Ffynnon Taf, 1.30 - 3pm. Manylion oddi wrth Heather Davies-Rollinson, 01222 811582, neu Helen Hoyle, 01222 813522.

YSGOL GYNRADD GWAELOD Y GARTH: Hydref 3, Blwyddyn 5 a 6 yr Uned Gymraeg yn mynd i Wersyll yr Urdd, Llangrannog. Hydref 14, Noson Agored ar gyfer rhieni; Hydref 15, Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Bethlehem. Apêl y Cynhaeaf - casgliad i'r RNIB; Hydref 31, Blwyddyn 5 a 6 yr Uned Saesneg yn mynd i Wersyll yr Urdd, Llangrannog.

AEROBEG: bob Nos Fawrth yn Neuadd y Pentre, Ffynnon Taf, 7.30pm - 8.30pm. Pris £2. Croeso i ddechreuwyr.

CYMHORTHFA Cynghorydd Jeff Lintern: dydd Sadwrn ola'r mis, Neuadd y Pentre', Ffynnon Taf, 12 - 1pm.

WEIGHT WATCHERS: bob nos Fercher, Neuadd y Pentre', Ffynnon Taf, 6.30pm. Manylion: 01633 810090.

## TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

**BABANOD NEWYDD**

Llongyfarchiadau i Karen a Robert Jones, Cae Faerdre, ar enedigaeth merch fach, Sara, chwaer i Bethan. Hefyd i Anna a Gareth Willams, Maes yr Eglwys ar enedigaeth bachgen bach, Samuel, brawd i James a Benjamin. Ac i Liz a Jeff Prince, y Dell, ar enedigaeth mab bychan, Steffan, brawd i Lowri.

**YSGOLORIAETH**

Bydd Tomos Morse, Tonteg, yn treulio blwyddyn ym Mhrifysgol Rio Grande yn Ohio. Roedd yn astudio Astudiaethau Theatr Teledu a Ffilm yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth ac yno yr enillodd ysgoloriaeth Elizabeth ac Evan Davies. Bydd yn darlithio ar ddiwylliant Cymreig ac yn gweithio yng nghanolfan newydd Astudiaethau Cymreig yn y Brifysgol. Mae Tomos yn gobeithio cyfarfod â rhai o'i berthnsau am y tro cyntaf, gan fod rhai o'i deulu wedi mudo o Dregaron i'r rhan yma o Ohio yn ystod y ganrif ddiwethaf. Mae hefyd yn gobeithio dechrau tîm rygbi yno. Llongyfarchiadau a phob lwc.

**YSGOL FEITHRIN PENTRE'R EGLWYS**

Cynhelir noson arall i rieni a ffrindiau yn y Farmer's Arms ar nos Fercher yr 8fed o Hydref. Croeso i bawb alw draw i'n gweld, ond os hoffech archebu pryd basged cysylltwch ymlaen llaw os gwelwch yn dda (Helen 208271).

**CERDDORION**

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar basio eu harholiadau piano. Gradd1: Rhys Lewis, Lisa Jones (teilyngdod), Manon Humphreys (rhagoriaeth). Gradd 2: Nicola Kearns (teilyngdod), Gruff Fisher (rhagoriaeth). Gradd 3: Laura Waring, Rhianydd Evans, Lisa Webb (teilyngdod), Saran Johnson (teilyngdod), Carys Jones (teilyngdod).

Hefyd i Rhys Lewis ar basio ei arholiad clarinet gradd 3 (teilyngdod), Lowri Green, clarinet Gradd 5 a Carwyn Hedd, telyn, gradd 1 (teilyngdod).

**DYRCHAFIAD**

Llongyfarchiadau i Geraint Rees, Briar Way, ar ei benodiad yn Brifathro Ysgol Gyfun Plasmawr, yr ysgol gyfun Gymraeg newydd yng Nghaerdydd.

Os oes ychwanegiadau i'r rhestr yma, neu unrhyw newyddion yr hoffech ei weld yn y papur, cysylltwch os gwelwch yn dda (208271). Os na rowch chi wybod i mi ni allaf eu cynnwys!

## CYNLLUNIAU IAITH

Cyhoeddodd dau o gwmniau mwyaf Cymru - SWALEC a Dŵr Cymru gynlluniau drafft ar gyfer defnyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r ddau gwmni, sy'n rhan o Grŵp Hyder wedi cytuno i'r cynlluniau drafft gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel rhan o'u hymrwymiad i sicrhau fod cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith yn cael gwasanaeth yn eu dewis iaith.

Nid yw'r cwmniau hyn yn gorfod cyhoeddi'r cynlluniau ond maent wedi gwneud yn wirfoddol ac yn awr maent yn awyddus i gael ymateb cwsmeriaid ac eraill y mae'r mater yn berthnasol iddynt fel rhan o broses ymgynghori.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y cynlluniau iaith gan Helen Matthews, Dŵr Cymru, 01874 614773 a Wynford Emanuel, SWALEC ar 01222 792111.

**CYNLLUN IAITH BRO TAF**

Bydd meddygon teulu, fferyllwyr, deintyddion ac optegwyr ym Mro Taf sy'n medru siarad Cymraeg yn arddangos bathodyn arbennig. Mae'r bathodyn yn rhan o ymrwymiad Awdurdod Iechyd Bro Taf i'r iaith Gymraeg a'i awydd i alluogi Cymry Cymraeg i drafod eu hiechyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Swyddogaeth awdurdod iechyd yw prynu gwasanaeth ar ran y trigolion oddi wrth ymddiriedolaethau ysbyty, gwasanaethau iechyd cymunedol a chontractwyr anibynnol yn ogystal ag oddi wrth y sector breifat.

# LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Glenys Roberts

**Hedfan y Nyth**
Mae'r tywydd yn dal yn braf wrth i mi sgwennu hwn ond y nosweithiau'n byrhau yn barod. Heddiw ydy'r diwrnod maen nhw'n ei alw'n 'gyhydnos' - oriau'r nos 'cyhyd' ag oriau'r dydd, am wn i. Yn ogystal â bod yn ddiwedd tymor yr haf, mae'n ddiwedd cyfnod arnon ni yma ym Maes yr Haul fel mewn llawer cartref arall yn yr ardal. Y 'cyw melyn olaf' wedi hedfan y nyth tua'r 'coleg ger y lli' - a theulu a chyfeillion yn manteisio ar lofftydd sbâr rhwng rwan ac 'wythnos diolchgarwch'. Pob dymuniad da i bawb o'r ardal sy'n dechrau ar fywyd newydd mewn gwahanol golegau.

**Colli Hubert**
Cymeriad annwyl oedd yn ymweld yn gyson â Llantrisant oedd Hubert Price, 'Wncwl Hubert' i lawer ond yn enwedig i Geraint a Rhiannon, Nia a Llinos, Portreeve Close. Bu Hubert farw ar Fedi'r 15fed ar ôl salwch cymharol fyr ac oes hir a llawn. Bydd lle gwag iawn ar ei ôl a chydymdeimlwn yn fawr â'r teulu.

**Cydnabod dawn Gary yn Los Angeles**
Enillwyd un o brif wobrau'r byd teledu gan ŵr o Lantrisant yn ddiweddar. Enillodd Gary Hurst o Cartŵn Cymru wobr 'Primetime Emmy' am gynllunio cynhyrchiad Moses, pennod yn y gyfres gartŵn, Testament a ddangoswyd ar S4C yn ddiweddar. Mae hon yn un o wobrau mwyaf y diwydiant teledu, ac yn cyfateb i'r 'Oscars' ym myd y ffilm. Dyma'r drydedd wobr o'r fath i'w hennill gan un o gydgynyrchiadau S4C/BBC Cymru. Cyflwynwyd y wobr i Gary mewn seremoni yn Los Angeles ar Fedi'r 7fed.

Daw Gary yn wreiddiol o Nelson yn swydd Gaerhirfryn a bu'n gweithio i Cartŵn Cymru am naw mlynedd. Mae'n briod ag Alison, sy'n gweithio yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant. Llongyfarchiadau mawr iddo fe a'r cwmni.

**Gareth Wyatt - talent ddisglair arall**
Gallai tîm rygbi Pontypridd fod wedi gwneud heb beth o'r cyhoeddusrwydd a gafodd yn ddiweddar. Ond mae un aelod ifanc o'r tîm sy'n prysur ddod i'r amlwg am y rhesymau cywir. Yn ôl erthygl yn Golwg yr wythnos yma gan Gareth Charles, gohebydd rygbi BBC Cymru, mae eisoes yn cael ei alw yn 'Gerald Davies newydd', ac yntau ond ugain oed. Tri chais gan Gareth oedd uchafbwyntiau'r tymor rygbi diwethaf i Gareth Charles. Bu Gareth yn chwarae, wrth gwrs, i Ysgol Gyfun Llanhari, ac mae pawb yn yr ardal yn dymuno pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

Nid chwarae rygbi yn unig y bu'n ei wneud yn ddiweddar. Sylwoch chi ar gar 'Just Rentals' yn mynd o gwmpas yr ardal ddiwrnod y refferendwm? Y bore hwnnw ro'n i'n cerdded i'r 'bwth' pleidleisio (carafan y tu ôl i'r Cross Inn) efo un o'r merched, a dyma'r car heibio - Gareth Wyatt yn gyrru ac Iwan James ar y corn siarad yn annog pawb i ddod allan i bleidleisio 'Ie'. Rhaid bod rhywun wedi gwrando arnoch chi bois!

**Tŷ Model**
Mae'r Tŷ Model yn eich gwahodd i gyd i ddiwrnod agored ar Hydref 16 (dydd Iau) rhwng 3 a 9 o'r gloch. Bydd cyfle i weld y tenantiaid yn dangos eu gwaith - yn grefftwyr ac artistiaid ac yn fenter iaith!

**Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant**
Croeso'n ôl i Mrs Marian Evans, y brifathrawes ar ôl y llawdriniaeth a gafodd ar ei chefn yn ddiweddar. Mae wedi gwella'n weddol er nad yw'n hollol gyfforddus eto. Pawb i fod ar ei orau i fihafio er mwyn i'r tymor fod mor esmwyth ag y mae modd iddi!

Croeso mawr i Miss Stephanie Williams i'r ysgol. Mae hi'n ymuno â'r staff fel cynorthwywraig yn y dosbarth. Bu'n ddisgybl i Mrs Evans yn Ysgol Gwaelod y Garth - mae hynny'n gwneud i Mrs Evans deimlo'n hen iawn (hi sy'n dweud).

Croeso hefyd i 40 o blant newydd a ddechreuodd yn yr ysgol y tymor yma. Maen nhw'n ymgartrefu'n syndod o dda ac yn mwynhau bwrlwm y gweithgareddau. Bwyd yw thema'r tymor. Bu rhai plant ar ymweliad â Sain Ffagan yn ddiweddar, yn crasu bara o flaen y tân. Cafodd dosbarthiadau 4 a 5 fynd i Techniquest ac i'r Amgueddfa Genedlaethol lle buont yn gweld gwahanol ffyrdd o goginio.

**Llangrannog**
Bydd nifer o blant yn mynd i Langrannog am y penwythnos ddiwedd Medi yng nghwmni pedair o athrawon dewr.

**Mark Aizlewood**
Am y chwe wythnos nesaf, bob dydd Mercher, bydd cyn chwaraewr pêl droed dros Gymru, a chyn Ddysgwr y Flwyddyn, yn ymweld â'r ysgol. Bydd Mark Aizlewood yn rhoi hyfforddiant mewn sgiliau pêl droed i'r plant. Cyfle i'r plant ddysgu tafodiaith Llantrisant iddo yntau!

**Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon**
Mae gan y Gymdeithas gynlluniau ar gyfer noson Calan Gaeaf, Hydref 31. Byddant yn cynnal noson o rasys. Pa fath o rasys, dw i ddim yn siŵr - ewch yno i weld.

**Adran yr Urdd**
Bydd yr adran yn ail-ddechrau y tymor yma dan ofal Haulwen Rees a Bethan Roberts. Mae'n diolch yn fawr i'r rhai a fu wrthi mor galed dros y blynyddoedd diwethaf, sef Llinos Swain, Margaret Griffiths a Jayne Griffiths. Mae cynnal adrannau yn waith hynod bwysig a dibynnir yn llwyr ar wirfoddolwyr. Mae yna apêl am gymorth gan rieni ac eraill. Os hoffech helpu yn achlysurol, rhowch wybod i'r ysgol.

# MENTER Taf Elái

Tŷ Model, Llantrisant
01443 226386

## MENTER TAF-ELAI >>>>>> MENTER RHONDDA CYNON TAF

Wel, y mis diwethaf roedd modd son am ein cynlluniau cyffrous i gyflogi mwy o staff a datblygu i wasanaethu trwy Rhondda a Chynon yn ogystal â Thaf-Elai. Bellach y mae pethau wedi newid.

Erbyn i chi ddarllen yr erthygl hwn bydd cyfarfod cyffredinol Menter Taf-Elai wedi trafod y mater a dod i ryw fath o benderfyniad - felly byddwch chi'n gwybod mwy na fi!

Serch hynny rwyf yn ymwybodol nad oes atebion hawdd i'r cwestiwn yma. Mae pawb eisiau gweld Menter Iaith rymus a llwyddiannus yn gweithio drwy'r Sir ond sut mae gwneud hyn ?

Gan i ni fod yn onest mae Cyngor Rhondda Cynon Taf heb ddangos diddordeb mewn cefnogi'r symudiad yma yn ariannol - maen nhw wedi gwrthod trafod y mater. Mae Bwrdd yr Iaith wedi gwrthod ceisiadau blaenorol am help i ddatblygu drwy'r sir gan awgrymu yn gryf y dylai'r Cyngor Sir gyfrannu. Gellid dadle fod Cynllun Iaith y Sir yn ymrwymiad at gefnogi datblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a taw Menter Iaith ydy un ffordd effeithiol o wneud hynny.Mae'n amlwg nad yw'r Sir yn cytuno.

Byddaf wedi cyflwyno adroddiad llawn llwyddiant i Gyfarfod Cyffredinol Menter Taf-Elái erbyn i chi ddarllen hyn a pham lai? Mae Menter Taf-Elái yn cymharu yn dda iawn gyda Menter Cwm Gwendraeth a Menter Aman Tawe am hanner y pris. Mae gennym Fenter gwerth sôn amdani. Rydym wedi ychwanegu at Gymreictod miloedd o bobl yr ardal.

Cafwyd cam a siom yn ddiweddar wrth i Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol hefyd wrthod cyfrannu at y datblygiad trwy'r Sir. Felly y mae cynlluniau cyffrous fy erthygl mis diwethaf wedi mynd. Nid oes adnoddau ychwanegol newydd ar gael - nid oes noddwyr i gefnogi'r symudiad i Rhondda a Chynon.

Beth bynnag oedd penderfyniad Cyfarfod Cyffredinol Menter Taf-Elái bydd y staff yn ymdrechu i'w weithredu. Byddwn yn ceisio bod mor effeithiol â phroffesiynol ag y bo modd. Serch hynny os ydym yn symud trwy'r Sir, heb adnoddau, gellir disgwyl y bydd y symudiad yn boenus o araf os nad yw'n gwasanaethau yn Nhaf-Elái i ddioddef.

Steffan Webb
Swyddog Datblygu Menter Taf-Elái





**Mwynhau taith y Cynllun Chwarae i Folly Farm yn Sir Benfro**

## OFFER CYFIEITHU

Pa fath o Gymry sy'n siarad Saesneg mewn cyfarfodydd ? Y rhai sy'n rhy ddiog neu gybyddlyd i drefnu offer cyfieithu - ydych chi'n eu hadnabod nhw? Mae offer cyfieithu'r Fenter ar gael yn rhad ac am ddim i bob ysgol a chymdeithas elusennol, ffoniwch 01443 226386

## CYNLLUNIAU CHWARAE HANNER TYMOR YR HYDREF

Byddwn yn rhedeg cynlluniau eto yn Rhydfelen, Llanhari a'r Cymer yn ystod wythnos hanner tymor. Mae'r plant wrth eu boddau fel mae'r lluniau o gynlluniau'r Haf yn dangos. Cawsant sawl profiad newydd ! Gwn y byddai Glenys Jones, ein swyddog gofal plant, yn falch o dderbyn unrhyw gemau bwrdd sydd gennych ac y mae hi'n chwilio am fwy o staff cymwys at ein cynlluniau

## CLWB CARCO AR ÔL YSGOL EVAN JAMES

Mae'r cynllun yma ar agor bob dydd o'r wythnos i blant Evan James ac, os oes modd trefnu cyrraedd y cynllun, i blant ysgolion eraill y cylch.

## CLYBIAU WYTHNOSOL

Mae'r clybiau i gyd wedi ail agor erbyn hyn - rhai ohonyn nhw gyda arweinwyr newydd, bydd nifer o berfformiadau cyffrous o fewn yr wythnosau nesaf. Manylion ar gael ar 01443 226386

## UNED 5

Bydd gwylwyr cyson UNED 5 wedi sylwi fod waliau mewnol "tŷ ni tŷ chi" wedi cael eu tynnu i lawr. Mae stiwdio Uned 5 ar ffurf tŷ lliwgar gyda chegin, lolfa, stafell molchi a stafelloedd gwely. "Mae tynnu'r waliau i lawr wedi rhoi agwedd hollol wahanol i'r tŷ," meddai uwch-gynhyrchydd Uned 5, Gaynor Davies, "ac rydan ni'n gobeithio y bydd gwylwyr yn ei leicio fo cymaint ac yr ydan ni."

Er fod y tŷ ar ei newydd wedd bydd dilynwyr selog Uned 5 yn falch o glywed na fu newid ym mhedwar prif gyflwnydd y rhaglen. Garmon Emyr, Nia Elin, Rhodri Owen a Heledd Cynwal yw'r pedwar fydd yn barod am lond lle o hwyl ac o eitemau difyr.

Gan fod y gyfres yn newydd, mae iddi hefyd nifer o eitemau newydd sbon. Un o'r rheiny yw eitem o'r enw Gweld Sêr, fydd yn rhoi proffil o seren adnabyddus o fyd teledu, cerddoriaeth, chwaraeon neu ffilmiau, o Gymru a'r byd. Eitem gyson arall fydd Eco, sy'n edrych ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchfyd. Ac wrth gwrs fe fydd yna gystadlaethau newydd hefyd, yn rhoi cyfle i'r gwylwyr ennill pob math o wobrau cyffrous.

**UNED 5** Dydd Mawrth a Dydd Iau am 5 pm ar S4C.

## MENTER TAF ELÁI YN EISIAU

Gemau Bwrdd, Jig-so, Gemau Cardiau, unrhyw Gemau eraill mewn cyflwr da, i'r clybiau gofal plant 4 - 11 oed.

Os gellwch gyfrannu unrhywbeth, a fuasech mor garedig a ffonio:
Glenys Jones
Swyddog Ieuenctid a Gofal Plant
01443 226386.

## CYMRU HEB FFINIAU

Wedi bwrlwm yr ymgyrch 'Ie dros Gymru' cynhelir yr ŵyl amserol hon yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter, Caerdydd, i geisio cryfhau llais y theatr Cymraeg yng Nghymru a thu hwnt.

Prif fwriad yr Ŵyl yw dileu rhwystrau ieithyddol a chodi proffil gwaith yn y Gymraeg tu hwnt i'w ffiniau naturiol a sicrhau bod y gwaith o fewn cyrraedd cynulleidfa di-Gymraeg.

Ymhlith y perfformiadau mae: 3 Tach - Andorra, Theatr Powys. Tach 7 - 8: Y Coed, David Mamet, Theatrig. Tach 9 - 10: Siwan, Saunders Lewis, Theatr y Dyfodol. Tach 12 - 13: Dinas Barhaus gan W S Jones, Theatr Bara Caws. Tach 20 - 22:Maoysata gan Sera Moore Williams, Dalier Sylw. Tach 24 - 26: Dros y Garreg (sioe blant) gan Sera Moore Williams, Arad Goch. Tach 26 - 27: Ede Hud gan Sharon Morgan, Rhosys Cochion.

## GWYL DDRAMA TAFOD ELÁI

**25 - 28 Tachwedd**
**Neuadd Dowlais.**
***Pantomeim, Noson Lawen, Drama***
**Mae'n edrych yn dda ond mae lle i fwy o gynhyrchiadau.**
**Ffoniwch 01222 890979.**


## SWYDDFA'R POST TONTEG

**Dewis arbennig o gardiau Cymraeg**

**Gwasanaeth cyflawn a chroesawgar**

**Prif Heol, Tonteg**
**01443 202429**



CBAC WJEC

Y SIOP LYFRAU

## FYDDWCH CHI'N DILYN CWRS TGAU NEU SAFON UWCH ELENI?

- Cyn-bapurau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Atodol
- Atebion enghreifftiol
- Meysydd llafur
- Llyfrau gosod ac arweinlyfrau
- Canolfan Adnoddau Ewropeaidd **NEWYDD**
- Adnoddau i ddysgwyr
- Llyfrau darllen i blant a phobl ifanc

***Galwch heibio'r Siop Lyfrau ar ei newydd wedd***

Ar agor: Llun - Gwener
9.00am - 5.00pm

*245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd CF5 2YX*
*(gyferbyn ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd)*

Ffôn: (01222) 265112
(01222) 265063
Ffacs: (01222) 575987